**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Ariannu a Strategaeth ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
20 Mawrth 2025

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018, a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio'r rheoliadau presennol ar gymorth i fyfyrwyr er mwyn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae effaith defnyddio'r CPI fel ffordd o fesur chwyddiant yn cael ei hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 SL(6)510[1].

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2025 o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998').

3.2 Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 22(1)(a) a 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol

[1] CR-LD16652 - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: SL(6)510 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Cymru, i’r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o’r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â’r Ysgrifennydd Gwladol, i’r graddau y mae’n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i’r graddau y mae’n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.4 Mae Rheoliadau 2025 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer system y cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

4.2 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio'r rheoliadau presennol ar gymorth i fyfyrwyr er mwyn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r newidiadau i symiau cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r chwyddiant a ragwelir fel y'u mesurir yn ôl y CPI yn ystod y flwyddyn hyd at Ch1 2026 ac a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2024. Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn cywiro testun Cymraeg Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014.

<u>Cymorth cynhaliaeth</u>

4.3 Ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018, cynyddu uchafswm y cymorth cynhaliaeth yn ôl y CPI. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Bydd swm y cymorth cynhaliaeth yn cynyddu 1.6% rhwng blynyddoedd academaidd 2024/25 a 2025/26. Mae'r elfen gymorth a fenthycir yn cael ei chynyddu yn unol â hynny; mae'r elfen grant yn sefydlog.

4.4 Ar gyfer myfyrwyr amser llawn a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2012 a chyn 1 Awst 2018, cynyddu swm y benthyciad cynhaliaeth yn ôl y CPI. Bydd swm y benthyciad cynhaliaeth yn cynyddu 1.6% rhwng blynyddoedd academaidd 2024/25 a 2025/26. Mae'r cymorth yn gymysgedd o grantiau a benthyciadau ac mae'n ddibynnol ar incwm yr aelwyd.

Grantiau cymorth eraill

4.5 Ar gyfer pob myfyriwr cymwys, cynyddu symiau'r Grantiau ar gyfer Dibynyddion, gan gynnwys y Grant Gofal Plant, yn ôl y CPI. Bydd y grantiau hyn yn cynyddu 1.6% ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

4.6 Ar gyfer pob myfyriwr cymwys, cynyddu swm y Grant Dysgwyr Anabl yn ôl y CPI. Bydd y grant hwn yn cynyddu 1.6% ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

Cymorth i ôl-raddedigion

4.7 Ar gyfer myfyrwyr meistr ôl-raddedig sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2025, cynyddu swm y cymorth yn ôl y CPI. Bydd y benthyciad cyfraniad at gostau yn cynyddu 1.6% ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

4.8 Ar gyfer myfyrwyr doethurol sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2025, cynyddu swm y cymorth yn ôl CPI. Bydd y benthyciad cyfraniad at gostau yn cynyddu 1.6% ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

**Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2025.

6.2 Mae costau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu harwain gan y galw. Rhagwelir costau ar sail rhagdybiaethau ynghylch niferoedd myfyrwyr. Mae blaenfenthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu diffinio fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol ('AME'), gan fod gwariant yn cael ei arwain gan y galw, mae'n gyfnewidiol ac mae'n rhy fawr i'w amsugno o fewn trafodiadau arferol DEL. Mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn gosod rheolau ar wariant AME ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

*Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig*

6.3 Yn hanesyddol, mae gwerth y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 wedi cynyddu bob blwyddyn yn ôl cyfradd cynnydd y Cyflog Byw Cenedlaethol. Sefydlwyd y polisi hwn o ganlyniad i'r *Adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr* yn 2018. Myfyrwyr ôl-2018 yw mwyafrif y myfyrwyr israddedig presennol, a benthyciadau ffioedd a chynhaliaeth ar gyfer y myfyrwyr hyn yw mwyafrif helaeth y costau a delir gan gronfa AME.

6.4 Oherwydd pwysau ar gronfa AME, ystyriwyd dau opsiwn ar gyfer cynyddu cyfraddau cymorth cynhaliaeth myfyrwyr sy'n dechrau, neu sydd wedi dechrau cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26:

a) **Cynnydd ar sail y Cyflog Byw Cenedlaethol** Y cynnydd i gyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 o dan yr opsiwn hwn fyddai 7.3%. Y Cyflog Byw Cenedlaethol a gynigir yw £11.59 (y gyfradd a ragwelir o fis Ebrill 2025 fel y'i cyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2024[2]). Yr opsiwn hwn yw'r risg ariannol fwyaf ac fe'i diystyrwyd.

b) **Cynnydd ar sail y CPI** Byddai cymorth cynhaliaeth yn cael ei gynyddu yn ôl mesur chwyddiant y CPI. Y cynnydd a gynigir i gyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 o dan yr opsiwn hwn yw 1.6% (rhagolwg y CPI a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2024). Dewiswyd yr opsiwn hwn.

*Cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig a chymorth arall*

6.5 Mae'r rhan fwyaf o lwfansau, cyfraddau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig, a chyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig cyn 2018, yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn ôl mesur chwyddiant a ragwelir, yn hanesyddol y

[2] https://obr.uk/download/march-2024-economic-and-fiscal-outlook-detailed-forecast-tables-economy

Mynegai Prisiau Manwerthu nad yw'n cynnwys taliadau llog morgeisi (RPIX). Yn 2016, asesodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a'i ddeilliadau yn erbyn y *Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol*, a chanfuwyd nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol ar gyfer eu dynodi'n Ystadegau[3]Gwladol. Disgwylir i'r RPIX a'r RPI ddod i ben a chael eu disodli gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y CPI, erbyn Chwefror 2030.

6.6 Mae'r defnydd o'r RPIX i gynyddu cyfraddau cymorth i fyfyrwyr wedi cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer y mesur chwyddiant i'w ddefnyddio i gynyddu cyfraddau cymorth myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ar gyfer blynyddoedd academaidd 2025/26 ac fel sail ar gyfer addasiadau yn y dyfodol. Yr opsiynau oedd:

a) **Cadw'r RPIX.** Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu lwfansau penodol, cyfraddau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig, a chyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig cyn 2018 yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir fel y'u mesurir gan y RPIX. Mae hwn yn bolisi sefydledig. Y gwerth RPIX a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yw 2.3% (rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2024).

   Nid yw parhau i ddefnyddio'r RPIX fel y mesur chwyddiant i gynyddu cyfraddau cymorth i fyfyrwyr yn unol â'r arfer ystadegol gorau. Diystyrwyd yr opsiwn hwn.

b) **Newid i'r CPI.** Mae'r CPI yn fesur chwyddiant gwell a chaiff yr RPIX ei ddirwyn i ben. Y gwerth CPI a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yw 1.6% (rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2024).

   Mae newid i'r CPI yn darparu arbediad bach o tua £0.9m, sy'n llai nag 1% o gyfanswm y gwariant ar gymorth i fyfyrwyr. O safbwynt myfyriwr, disgwylir i'r CPI fod ychydig yn is na'r RPIX, ac felly bydd y cynnydd blynyddol i'r cymorth yn llai o dan yr opsiwn hwn o flwyddyn academaidd 2025/26.

   Y CPI yw'r mesur chwyddiant a ffefrir. Dewiswyd yr opsiwn hwn.

6.7 Mae'r tabl canlynol yn cymharu gwerthoedd hanesyddol yr RPIX a'r CPI, a'r gwerthoedd a ragwelir ganddynt.

---

[3] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/methodologies/consumerpriceinflationincludesall3indicescpihcpiandrpiqmi

| Tabl 1. Gwerthoedd yr RPIX a'r CPI a'r gwerthoedd a ragwelir ganddynt (%) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020 - 21 | 2021 - 22 | 2022 - 23 | 2023 - 24 | 2024 - 25 | 2025 - 26 |
| CPI | 0.6 | 6.2 | 10.2 | 3.7 | 1.1 | 1.6 |
| RPIX | 1.6 | 8.5 | 12.7 | 3.8 | 1.4 | 2.3 |
| *Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Mawrth 2024* | | | | | | |

## 7. Yr opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Os na wneir Rheoliadau 2025, ni fydd gwerth cymorth i fyfyrwyr yn cynyddu yn ôl mesur chwyddiant a ragwelir sy'n adlewyrchu newidiadau disgwyliedig i gostau bob dydd fel bwyd, cludiant a dillad ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

7.2 Mae gwneud Rheoliadau 2025 yn sicrhau yr osgoir y sefyllfa uchod.

## 8. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

8.1 Byddai gadael y rheoliadau presennol ar waith yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr. Byddai myfyrwyr yn dwyn cost gyfan y gostyngiad gwirioneddol yng ngwerth y cymorth i fyfyrwyr y byddent yn ei gael.

*Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau 2025*

8.2 Drwy wneud Rheoliadau 2025, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod polisi cymorth i fyfyrwyr yn cael ei weithredu, bod cynaliadwyedd ariannol yn cael ei wella, a bod myfyrwyr yn cael mwy o gymorth. Bydd Rheoliadau 2025 yn sicrhau bod cymorth i fyfyrwyr yn parhau i fod yn fforddiadwy o fewn y cyfyngiadau a osodwyd ar wariant AME gan Drysorlys Ei Fawrhydi, gan gydbwyso ar yr un pryd yr angen i ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n adlewyrchu newidiadau i gostau bob dydd.

8.3 Yn nhabl 2, nodir costau'r opsiynau ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig (fel y'u nodir ym mharagraff 6.3 i 6.4) yn nhabl 2. Mae'r costau yn

cymryd yn ganiataol bod cymorth i ôl-raddedigion a chymorth arall hefyd yn cynyddu yn ôl y CPI.

| **Tabl 2. Cyfanswm costau'r opsiynau cymorth ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 (£m)** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Opsiwn 1: Cynnydd yn ôl y Cyflog Byw Cenedlaethol** | **Opsiwn 2: Cynnydd yn ôl y CPI** | **Gwahaniaeth** |
| AME | £1,074.6 | £1,035.1 | £39.4 |
| Bron yn arian parod | £247.0 | £247.0 | £0.0 |
| Heb fod yn arian parod | £57.8 | £55.5 | £2.3 |
| **Cyfanswm** | **£1,379.4** | **£1,337.6** | **£41.7** |
| **Nodiadau**<br>Mae Opsiwn 1 yn seiliedig ar gynyddu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig yn ôl y Cyflog Byw Cenedlaethol ac i fyfyrwyr ôl-raddedig a lwfansau eraill yn ôl y CPI.<br>Mae Opsiwn 2 yn seiliedig ar gynyddu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, a lwfansau eraill, yn ôl y CPI yn unig.<br>Y gwahaniaeth os dilynir opsiwn 2 yn hytrach nag opsiwn 1. | | | |
| Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru | | | |

8.4 Yn nhabl 3, nodir cyfanswm costau cymorth i fyfyrwyr dros y ddwy flynedd ariannol sy'n cwmpasu blwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer opsiwn 2.

| **Tabl 3. Cost opsiwn 2 – cynyddu'r swm yn ôl y CPI** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y costau ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 | Cyfanswm y costau yn ôl blwyddyn ariannol | |
| | | Blwyddyn ariannol 2025-26 | Blwyddyn ariannol 2026-27 |
| Bron yn arian parod | 247.0 | 164.2 | 82.8 |
| AME | 1,035.1 | 601.7 | 433.5 |
| Heb fod yn arian parod | 55.5 | 32.0 | 23.5 |
| **Cyfanswm** | **1,337.6** | **797.9** | **539.8** |
| Nodiadau:<br>(a) Mae cyfanswm y costau yn cynnwys holl gynhyrchion AU ond nid ydynt yn cynnwys cynhyrchion AB (y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu AB Llywodraeth Cymru).<br>(b) Yn defnyddio'r CPI i gynyddu'r swm. | | | |
| Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru | | | |

## 9. Asesiad o'r gystadleuaeth

9.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2025 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 10. Asesu ar ôl gweithredu

10.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith.